TheCityUK

# Galluogi twf ledled Cymru

## maniffesto ar gyfer Llywodraeth Cymru



# Rhagair

Ddydd Iau 7 Mai, bydd pleidleiswyr o bob cwr o Gymru yn mynd i'r orsaf bleidleisio.

Dros y pedair blynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol – o lywio twf economaidd a chynyddu cyflogaeth i gynnig cyfleoedd ledled y wlad. Bydd angen buddsoddiad ac arbenigedd gan bob rhan o economi Cymru er mwyn cyflawni'r heriau hyn.

Mae ein dadansoddiad yn dangos bod y diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig eisoes yn cyflogi tua 63,000 o bobl yng Nghymru ac yn cyfrannu mwy na £6.1 biliwn at economi Cymru. Drwy weithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, mae mwy y gallwn ei wneud i ddatgloi potensial llawn y diwydiant a chefnogi twf ledled y wlad.

Cyn yr etholiad, rydym wedi nodi cyfraniad y diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig yng Nghymru, y buddiannau i gymunedau ledled y wlad, a chyfres o argymhellion ymarferol i gefnogi twf cynaliadwy.

Rydym yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â phawb a gaiff eu hethol ym mis Mai er mwyn darparu ar gyfer cymunedau ledled Cymru, ac ar gyfer y genedl gyfan.

**Tom Bray**
Cadeirydd TheCityUK ar gyfer Cymru

# Ein diwydiant ledled Cymru

## Caerdydd yw'r ganolfan fwyaf blaenllaw yng Nghymru o ran gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig, ac mae ganddi gryfderau penodol ym maes yswiriant.

Mae'r diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig yn cyflogi 63,000 o bobl yng Nghymru ac yn cyfrannu 8.2% at werth ychwanegol gros (GYG) go iawn Cymru.

Mae ganddi enw da am ddarparu cymorth a gwasanaethau proffesiynol o ansawdd uchel, gydag arbenigedd penodol mewn cardiau a thaliadau, cyllid asedau, gweinyddu cronfeydd, gweinyddu morgeisi, trethiant, masnachu gwarantau, yswiriant, gwasanaethau cyfreithiol, cymorth TG, canolfannau gwasanaeth a rennir ac allanoli prosesau busnes.

Mae De Cymru yn chwarae rôl bwysig, gyda chanolfannau ariannol yng Nghaerdydd ac yn Abertawe. Rhyngddynt, mae'r ddwy ddinas hyn yn cyfrif am fwy na hanner cyfanswm cyflogaeth y diwydiant yng Nghymru, gyda 28,035 o bobl yn cael eu cyflogi yng Nghaerdydd (12.1% o gyflogaeth y ddinas) a 6,305 yn Abertawe (5.7% o gyflogaeth y ddinas). Yng Nghaerdydd, mae 10,510 o swyddi'r diwydiant yn y sector yswiriant. Mae gwasanaethau cyfreithiol yn sector arall sy'n cyflogi rhan fawr o weithlu'r diwydiant, sef 16%. Mae'r diwydiant yn cyfrannu bron un rhan o bump o werth ychwanegol gros (GYG) go iawn yn y ddwy ddinas.

Yng Nghaerdydd, mae'r prif gyflogwyr ym maes gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig yn cynnwys Deloitte, Eversheds Sutherland, KPMG a PwC, yn ogystal â llu o gwmnïau technoleg ariannol newydd. Caiff y sector ei gefnogi gan FinTech Cymru, a sefydlwyd yn 2019 ac sydd wedi tyfu a datblygu'n sylweddol hyd at 2024. Mae Caerdydd wedi dod yn ganolfan ffyniannus ar gyfer arloesedd a thechnoleg ariannol, gyda

Mae gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig yn cyfrif am y canlynol:

**8.2%** o GYG go iawn cenedlaethol

**4.6%** o gyflogaeth genedlaethol

### Cyflogaeth a GYG Cymru, 2023

Cyflogaeth mewn gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig




= Cyflogaeth, 2023    £ = Gwerth Ychwanegol Gros Go Iawn, 2023

**CYFLOGAETH MEWN GWASANAETHAU ARIANNOL A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL CYSYLLTIEDIG MEWN TREFI A DINASOEDD PENODOL YNG NGHYMRU**

| Dinas / Tref | Gwasanaethau Ariannol | | | | | Gwasanaethau Proffesiynol Cysylltiedig | | | | Cyfanswm | % o Gyflogaeth y Ddinas/ Tref |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bancio | Yswiriant | Rheoli Cronfeydd | Gwasanaethau Ariannol Eraill | Cyfanswm | Cyfrifyddiaeth | Ymgynghoriaeth Reoli | Gwasanaethau Cyfreithiol | Cyfanswm | | |
| Caerdydd | 3,500 | 10,510 | 225 | 4,050 | 18,285 | 3,500 | 1,750 | 4,500 | 9,750 | **28,035** | **12.1** |
| Abertawe | 900 | 2,700 | 5 | 400 | 4,005 | 800 | 800 | 700 | 2,300 | **6,305** | **5.7** |
| **Cyfanswm Rhanbarthol** | **9,000** | **15,000** | ***** | **8,000** | **32,000** | **12,000** | **9,000** | **10,000** | **31,000** | **63,000** | **4.6** |

** Yn dynodi cyfanswm rhanbarthol a chenedlaethol sy'n llai na 1,000 gan fod Nomis yn talgrynnu'r cyfansymiau rhanbarthol a chenedlaethol i'r 1,000 agosaf. Mae trefi a dinasoedd mawr lle mae dros 5,000 o bobl wedi'u cyflogi mewn gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig wedi'u rhestru.*

**GWERTH YCHWANEGOL GROS GWASANAETHAU ARIANNOL A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL CYSYLLTIEDIG MEWN TREFI A DINASOEDD PENODOL YNG NGHYMRU (£ MILIWN ONI NODIR FEL ARALL)**

| Dinas / Tref | Gwasanaethau Ariannol | | | | | Gwasanaethau Proffesiynol Cysylltiedig | | | | Cyfanswm | % o Werth Ychwanegol Gros y Ddinas/Tref |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bancio | Yswiriant | Rheoli Cronfeydd | Gwasanaethau Ariannol Eraill | Cyfanswm | Cyfrifyddiaeth | Ymgynghoriaeth Reoli | Gwasanaethau Cyfreithiol | Cyfanswm | | |
| Caerdydd | 713 | 1,149 | 24 | 604 | 2,490 | 304 | 34 | 253 | 591 | **3,081** | **20.3** |
| Abertawe | 268 | 432 | 9 | 227 | 936 | 54 | 16 | 45 | 115 | **1,051** | **17.8** |
| **Cyfanswm Rhanbarthol** | **1,708** | **1,887** | **39** | **992** | **4,626** | **680** | **259** | **566** | **1,505** | **6,131** | **8.2** |

*Mae trefi a dinasoedd mawr lle mae dros 5,000 o bobl wedi'u cyflogi mewn gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig wedi'u rhestru. Amcangyfrifon TheCityUK yw'r data ar Werth Ychwanegol Gros. I gael manylion ac i weld y fethodoleg, gweler yr Atodiad.*

nifer o egin fusnesau newydd yn dod i'r amlwg ac yn datblygu'n fyd-eang. Mae'r ddinas bellach yn cynnal nifer o gynadleddau a digwyddiadau technoleg ariannol, sy'n denu buddsoddwyr rhyngwladol ac arweinwyr y diwydiant. At hynny, mae buddsoddiad mewn technoleg ariannol yng Nghymru wedi codi o £13m yn 2022 i £70m yn 2023. Mae'r diwydiant technoleg ariannol yn cyfrannu tua £1.6bn mewn GYG i Gymru.[1]

Fel sedd llywodraeth genedlaethol ddatganoledig, gall y sawl sy'n creu polisïau weithio mewn partneriaeth uniongyrchol â Gweinidogion ac Aelodau o'r Senedd i ddatblygu strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn sicrhau twf. Fodd bynnag, mae busnesau'n cydnabod pwysigrwydd masnachu'n ddi-dor â chanolfannau ehangach y DU, ac yn ystyried bod cysondeb rheoleiddiol â'r llywodraeth ganolog yn werthfawr.

Mae sefydliadau academaidd ac ymchwil blaenllaw fel Ysgol Fusnes Caerdydd yn darparu cyrsiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ac yn sicrhau bod cyflenwad cyson o raddedigion a staff lefel mynediad ar gael. Mae academyddion a chynrychiolwyr o'r diwydiant yn rhannu awydd i gydweithio, a allai fod yn allweddol er mwyn hwyluso twf pellach ym mhob rhan o'r wlad.

[1] FinTech Cymru, 'Wales' Annual Fintech Report 23/24 Released by FinTech Wales', (Rhagfyr 2024), ar gael yn: https://fintechwales.org/news/wales-annual-fintech-report-23-24-released-by-fintech-wales/

# Argymhellion ar gyfer twf

Mae'r argymhellion canlynol yn canolbwyntio ar dri maes allweddol lle gall Llywodraeth Cymru wneud newidiadau ystyrlon er mwyn helpu i ddatgloi potensial gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig i lywio twf economi ehangach Cymru.

## 1) Ymgysylltu â'r diwydiant

I fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n wynebu Cymru, mae'n hollbwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig, yn enwedig o ystyried ei statws fel ased cenedlaethol allweddol. Bydd hyn yn galluogi'r diwydiant a'r llywodraeth i gyflawni amcanion a rennir.

I gyflawni'r bartneriaeth strategol hon, dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod pob sector o'r economi, yn enwedig y sector gwasanaethau o ystyried ei bwysigrwydd, yn cael ei gynrychioli'n llawn mewn fforymau busnes a gwaith sy'n hyrwyddo'r rhanbarth dramor.**

- **Sicrhau y caiff rôl y diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig o ran galluogi ei hadlewyrchu yn strategaeth twf Cymru.**

- **Datblygu strategaeth sy'n benodol i'r diwydiant ar gyfer gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig, gan fyfyrio ar ei rôl fel ysgogydd twf o ran economi Cymru sydd wedi creu 63,000 o swyddi a thros £6.1bn o allbwn economaidd.**

# 2) Pobl

Llunwyr polisïau ac arweinwyr busnesau lleol yw’r bobl orau i nodi’r sgiliau sydd eu hangen yn eu meysydd, yn enwedig mewn meysydd arbenigol a meysydd sy’n datblygu, fel mathau arbenigol o dechnoleg ariannol neu dechnoleg gyfreithiol. Gallant ymgysylltu ag ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol i sicrhau y gall pobl ifanc ddysgu am ddiwydiannau yn eu hardal leol yn gynnar ar eu taith addysgol. Hefyd, gall Llywodraeth Cymru helpu i dynnu sylw at fodelau rôl yn ein diwydiant er mwyn denu pobl ifanc o gefndiroedd llai breintiedig.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Dod â rhwydwaith eang o gyflogwyr ynghyd er mwyn cyfrannu at ei strategaeth addysg gyffredinol.** Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu anghenion economi Cymru.

- **Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer mapio anghenion sgiliau ac ymdrin â nhw yn cyd-fynd yn agos â’r weledigaeth ehangach ar gyfer twf economaidd,** gan gynnwys creu capasiti ar gyfer cynnig hyfforddiant a sesiynau ailsgilio mewn sectorau twf. Dylai hyn gynnwys sicrhau cysondeb â mentrau o bob rhan o’r DU, gan gynnwys Strategaeth Ddiwydiannol y llywodraeth.

- **Defnyddio ei phŵer i gynnull i helpu i gysylltu ysgolion, colegau a phrifysgolion er mwyn ymgysylltu â chyflogwyr ym mhob rhan o’r broses addysg,** er enghraifft ym meysydd fel cynllunio’r cwricwlwm a chyrsiau.

# 3) Ffyniant

Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ymdrechion i ddenu buddsoddiadau i ganolfannau yng Nghymru a ledled y DU, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru geisio adeiladu ar y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'r gallu i gyfathrebu a theithio rhwng lleoliadau'n parhau i fod yn rhwystr allweddol i sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl. Bydd seilwaith digidol a thrafnidiaeth effeithiol yn gwella cysylltedd canolfannau ffyniannus ledled y DU, gan helpu i gefnogi twf gwell ym mhob diwydiant, nid yn unig y diwydiant gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

› **Gweithio gyda llywodraeth y DU i'w hannog i fuddsoddi ymhellach mewn rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol gwell** ac ategu hyn drwy gynnal strategaeth trafnidiaeth unedig i symud pobl a nwyddau'n haws.

› **Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth i wella seilwaith digidol Cymru,** yn arbennig wrth gyflwyno 5G.

› **Parhau i ddatblygu prosesau a pholisïau cynllunio i sicrhau bod prosiectau hanfodol ac sydd o werth cymdeithasol yn cael eu darparu mewn ffordd amserol.**

TheCityUK

TheCityUK, Fitzwilliam House, 10 St Mary Axe, London, EC3A 8BF

**www.thecityuk.com**

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddeunydd sydd ym meddiant TheCityUK neu a ddarparwyd i ni gan ffynonellau ag enw da, y credwn eu bod yn ddibynadwy. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei fod yn gywir, ni allwn roi unrhyw sicrwydd nad oes camgymeriadau ffeithiol wedi'u cynnwys o bosibl. Felly, nid yw TheCityUK nac unrhyw swyddog na chyflogai yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw ddifrod uniongyrchol neu anuniongyrchol, canlyniadol neu golled arall o ganlyniad i anghywirdeb. Darperir y cyhoeddiad hwn i chi at ddibenion gwybodaeth ac ni fwriedir iddo fod yn gynnig nac yn erfyniad i brynu na gwerthu unrhyw offeryn ariannol, nac fel cynnig i ddarparu cyngor ariannol.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i ddiogelu gan hawlfraint ac ni ellir ei gynhyrchu na'i gyhoeddi mewn unrhyw fformat arall gan unrhyw berson, at unrhyw ddiben heb ganiatâd ymlaen llaw gan berchennog/cyhoeddwr gwreiddiol y data a/neu TheCityUK. © Hawlfraint Ebrill 2026